ECAD6006C
Sesiwn 2 JP

17 Hydref 2019

Pwy sy'n cofio…?

What's the matter?

Have you finished John?

Are you ready children?

Where is your homework?

Who knows … ?

How many pencils are there?

Pwy sy'n cofio…?

What colour is this?

Can I see your work Jess?

What are these?

Are there enough books?

Will you put the book on the desk?

Who wants playdough?

Y lleidr brawddegau ….


1. Bore da bawb, heddiw byddwn ni'n dysgu am anifeiliaid.
2. Prynhawn 'ma, rydw i eisiau i chi feddwl am yr amgylchedd.
3. Prynhawn da blant, nawr rydyn ni'n mynd i ysgrifennu dyddiadur.
4. Yn y wers yma, rydych chi'n mynd i wneud model 3D.
5. Croeso flwyddyn 1, rydyn ni'n mynd i ddysgu cân newydd heddiw.
6. Bore 'ma, byddwch chi'n siarad am eich gwyliau.
7. Yn y wers yma, byddwn ni'n dysgu am y planedau.
8. Prynhawn 'ma, rydych chi'n mynd i ymarfer ysgrifennu.
9. Bore 'ma, rydyn ni'n mynd i adolygu mathemateg.
10. Bore da blant, byddwn ni'n dysgu am y byd heddiw.
11. Prynhawn da bawb, yn y wers yma rydw i eisiau i chi feddwl am rifau.
12. Croeso bawb, heddiw byddwn ni'n dysgu am y Tuduriaid.



Rheolau'r Gêm …



- Torrwch eich papur yn 4 rhan.
- Ysgrifennwch 4 brawddeg ar eich cardiau.
- Dewch o hyd i bartner.
- Rhaid i chi chwarae "carreg, papur, siswrn" i benderfynu pwy sy'n dechrau.
- Darllenwch 4 brawddeg o'r bwrdd gwyn. Os oes gan eich partner un o'r brawddegau ar ei garden, rhaid iddo roi'r garden/cardiau i chi.
- Allwch chi ddim (you cannot) siarad â'r un person fwy nag unwaith.
- Ewch o amgylch yr ystafell yn casglu cardiau/brawddegau pobl eraill. Yr enillydd ydy'r person gyda'r nifer fwyaf o gardiau/frawddegau.





Gorchmynion …

Yn Gymraeg, mae sawl ffordd gwahanol o ddweud wrth rywun beth i wneud neu beth i beidio gwneud (*what to do or what not to do*) …

Paid â …
Peidiwch â …

Dim …

Beth ydyn nhw?

Rhaid i ti …
Rhaid i chi …

Ychwanegu'r terfyniad (ending)
-a
-wch

Dim …

Paid â …
Peidiwch â …

Rhaid i ti …
Rhaid i chi …

Byddwch yn ofalus … mae'r ddau yma'n negyddol iawn!

*** Rhaid i ni ddefnyddio'r berfenw (verb-noun)**

e.e.
Dim siarad
Dim rhedeg
Dim bwyta
Dim gweiddi

*** Rhaid i ni ddefnyddio'r berfenw (verb-noun).**
*** Bydd Treiglad Llaes ar ôl 'â'**
*** Paid â (un person), Peidiwch â (mwy nag un person)**

e.e.
Paid â cherdded ar y gwair.
Peidiwch â siarad yn y cornel darllen.

*** Rhaid i ni ddefnyddio'r berfenw (verb-noun).**
*** Bydd Treiglad Meddal ar ôl 'i chi / i ti'**
*** Rhaid i ti (un person), rhaid i chi (mwy nag un person)**

e.e.
Rhaid i ti weithio yn dawel.
Rhaid i chi ysgrifennu yn eich llyfrau.


Gorchmynion …

Ychwanegu'r terfyniad (ending)

-a

-wch

Ffurfio gorchymyn o ferfenw …



PWYSIG!!

Dydyn ni ddim yn gallu defnyddio'r ddau gyda'i gilydd …

Rhaid i ti …
Rhaid i chi …

Ychwanegu'r terfyniad (ending)

-a

-wch



Terfyniad y ferf	Enghraifft o ferf	Bonyn	Gorchmynion
-io			
-io	Anghofio	Anghofi-	**Anghofia / Anghofiwch**
-io	Ffonio	Ffoni-	**Ffonia / Ffoniwch**
-io	Cofio	Cofi-	**Cofia / Cofiwch**
llafariaid			
-o	Gwisgo	Gwisg-	**Gwisga / Gwisgwch**
-u	Tynnu	Tynn-	**Tynna / Tynnwch**
-u	Sychu	Sych-	**Sycha / Sychwch**
-u	Talu	Tal-	**Tala / Talwch**
-i	Codi	Cod-	**Coda / Codwch**
-a	Bwyta	Bwyt-	**Bwyta / Bwytwch**
-ed/-eg			
-ed	Cerdded	Cerdd-	**Cerdda / Cerddwch**
-eg	Rhedeg	Rhed-	**Rheda / Rhedwch**
-ed	Yfed	Yf-	**Yfa / Yfwch**
-oi			
-oi	Rhoi	Rho-	**Rho / Rhowch**
-oi	Troi	Tro-	**Tro / Trowch**
dim			
	Gofyn	Gofynn-	**Gofynna / Gofynnwch**
	Eistedd	Eistedd-	**Eisteddа / Eisteddwch**
	Edrych	Edrych-	**Edrycha / Edrychwch**
	Darllen	Darllen-	**Darllena / Darllenwch**
eraill			
	Dweud	Dwed Dywed-	**Dwed / Dwedwch** **Dyweda / Dywedwch**
	Cau	Cae-	**Caea / Caewch**

Mae 'mynd', 'dod' a 'gwneud' yn ferfau afreolaidd. Rydyn ni'n defnyddio nhw'n aml gyda gorchmynion a phan fyddwn ni'n rhoi cyfarwyddiadau.

Mynd	ti	Cer!	**Dod**	ti	Dere!
	chi	Ewch!		chi	Dewch!

e.g. **Cer** ma's! / **Ewch** allan!
Cer at y pennaeth.

Ewch heibio'r drws.
Ewch i'ch rhesi.

Gwneud	ti	Gwna ... !
	chi	Gwnewch ... !
Bod	ti	Bydda'n ... !
	chi	Byddwch yn ... !

Mae gan 'to take' yn Saesneg ddau ystyr yn Gymraeg :

Mynd â
Mae '**Mynd â**' yn golygu '*to go with'*, h.y. to take something or someone from one place to another
e.e.
Dw i'n **mynd â**'r car i'r garej.

Maen nhw'n **mynd â**'r plant i'r ysgol.

Cymryd
Mae '**Cymryd**' yn golygu '*to take a turn'*, '*to take medicine'* ayb.,
e.e.
Cymerwch yr ail dro.

Dw i'n **cymryd** tabledi.

Cer/Ewch + â = *Take*
Cer â hwn. ***Take** this.*

Dod â *To bring*
Mae '**Dod â**' yn golygu '*to come with'*, h.y. to bring something or someone,
e.e.
Dewch â chacen i'r parti.

Dw i'n **dod â**'r plant yn y car.

Dere/Dewch + â = *Bring*

Dere â llyfr i fi.
Dere ag* **a**fal i fi.


* cofiwch fod angen '**ag'** cyn gair sy'n dechrau â llafariad.

Gorchymyn yn cynnwys ‘your’…


Bwyta	dy fwyd.	**Bwytwch**	eich bwyd.
Gwisga	dy got.	**Gwisgwch**	eich cotiau.
Clyma	dy lasys.	**Clymwch**	eich lasys.
Tynna	dy got.	**Tynnwch**	eich cotiau.
Caea	’r drws.	**Caewch**	y drws.
Golcha	’r brwshys.	**Golchwch**	y brwshys.
Anghofia	am y peth.	**Anghofiwch**	am y peth.
Gofynna	i’r tiwtor.	**Gofynnwch**	i’r tiwtor.
Darllena	’r llyfr.	**Darllenwch**	y llyfr.
Edrycha	ar dudalen wyth.	**Edrychwch**	ar dudalen wyth.
Gwranda	ar y gerddoriaeth.	**Gwrandewch**	ar y gerddoriaeth.
	arna i.		arna i.
Dweda	wrtho i.	**Dwedwch**	wrtho i.

Gweithgareddau …


Chwaraewch y gêm drac gyda phartner …



Ymarferwch y sgwrs gyda phartner …



Llenwch y grid gorchmynion …



Treiglo gyda gorchmynion …

Treiglad meddal ar ôl gorchymyn
Mae'r gair sy'n dod ar ôl gorchymyn yn **treiglo'n feddal**.

e.e. Yfa **dd**ŵr.	Yfwch **dd**ŵr.
Bwyta **l**ysiau bob dydd.	Bwytwch **l**ysiau bob dydd.
Darllena **l**yfr.	Darllenwch **l**yfr.
Gwisga **g**ot.	Gwisgwch **g**ot.

Ond os oes y / yr / 'r ar ôl gorchymyn, dim ond enwau benywaidd unigol sy'n treiglo.

e.e. Yfa'r dŵr. Yfwch y dŵr.
(Mae'r gair 'dŵr' yn wrywaidd, felly does dim treiglad.)

Bwyta'r llysiau. Bwytwch y llysiau.
(Mae'r gair 'llysiau' yn lluosog, felly does dim treiglad.)

Gwisga'r **g**ot. Gwisgwch y **g**ot.
(Mae'r gair 'cot' yn fenywaidd, felly mae treiglad meddal.)

Treiglo gyda gorchmynion …

Treiglad meddal ar ôl gorchymyn
Mae'r gair sy'n dod ar ôl gorchymyn yn **treiglo'n feddal**.

e.e. Yfa **dd**ŵr.	Yfwch **dd**ŵr.
Bwyta **l**ysiau bob dydd.	Bwytwch **l**ysiau bob dydd.
Darllena **l**yfr.	Darllenwch **l**yfr.
Gwisga **g**ot.	Gwisgwch **g**ot.

Ond os oes y / yr / 'r ar ôl gorchymyn, dim ond enwau benywaidd unigol sy'n treiglo.

e.e. Yfa'r dŵr. Yfwch y dŵr.
(Mae'r gair 'dŵr' yn wrywaidd, felly does dim treiglad.)


Bwyta'r llysiau. Bwytwch y llysiau.
(Mae'r gair 'llysiau' yn lluosog, felly does dim treiglad.)

Gwisga'r **g**ot. Gwisgwch y **g**ot.
(Mae'r gair 'cot' yn fenywaidd, felly mae treiglad meddal.)

Gweithgareddau …

Ymarferwch y sgwrs ‘Yn yr ysgol – prynhawn aur’ gyda phartner …





Gwnewch yr ymarferion ‘Llenwi bylchau’ a ‘Treiglo neu beidio’ …